

Sunday 6th September 2026
14th Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty God, your only Son has opened for us a new and living way into your presence : give us pure hearts and steadfast wills to worship you in spirit and in truth; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Ezekiel
(33.7-11)

The word of the Lord came to me: So you, mortal, I have made a sentinel for the house of Israel; whenever you hear a word from my mouth, you shall give them warning from me. If I say to the wicked, 'O wicked ones, you shall surely die', and you do not speak to warn the wicked to turn from their ways, the wicked shall die in their iniquity, but their blood I will require at your hand. But if you warn the wicked to turn from their ways, and they do not turn from their ways, the wicked shall die in their iniquity, but you will have saved your life.

Now you, mortal, say to the house of Israel, Thus you have said: 'Our transgressions and our sins weigh upon us, and we waste away because of them; how then can we live?' Say to them, As I live, says the Lord God, I have no pleasure in the death of the wicked, but that the

wicked turn from their ways and live; turn back, turn back from your evil ways; for why will you die, O house of Israel?

The Psalm
(119.33-40)

Teach me, O Lord, the / way of your / statutes: and I shall / keep it / to the / end. Give me understanding and I shall / keep your / law: I shall keep it / with my / whole / heart.

Lead me in the path of / your com/mandments: for there/in is / my de/light. Incline my heart / to your / testimonies: and / not to / unjust / gain.

Turn away my eyes lest they / gaze on / vanities: O / give me / life in your / ways. Confirm to your / servant your / promise: which / stands for / all who / fear you.

Turn away the reproach / which I / dread: be/cause your / judgements are / good. Behold, I long for / your com/mandments: in your / righteousness / give me / life.

The reading from Romans
(13.8-14)

Owe no one anything, except to love one another; for the one who loves another has fulfilled the law. The commandments, 'You shall not commit adultery; You shall not murder; You shall not steal; You shall not covet'; and any other commandment, are summed up in this word, 'Love your neighbour as

yourself.' Love does no wrong to a neighbour; therefore, love is the fulfilling of the law.

Besides this, you know what time it is, how it is now the moment for you to wake from sleep. For salvation is nearer to us now than when we became believers; the night is far gone, the day is near. Let us then lay aside the works of darkness and put on the armour of light; let us live honourably as in the day, not in revelling and drunkenness, not in debauchery and licentiousness, not in quarrelling and jealousy. Instead, put on the Lord Jesus Christ, and make no provision for the flesh, to gratify its desires.

The reading from the Gospel
according to Saint Matthew
(18.15-20)

Jesus spoke to his disciples: 'If another member of the church sins against you, go and point out the fault when the two of you are alone. If the member listens to you, you have regained that one. But if you are not listened to, take one or two others along with you, so that every word may be confirmed by the evidence of two or three witnesses. If the member refuses to listen to them, tell it to the church; and if the offender refuses to listen even to the church, let such a one be to you as a Gentile and a tax-collector.

'Truly I tell you, whatever you bind on earth will be bound in heaven, and whatever you loose on

earth will be loosed in heaven. Again, truly I tell you, if two of you agree on earth about anything you ask, it will be done for you by my Father in heaven. For where two or three are gathered in my name, I am there among them.'

The collect following communion

Lord God, the source of truth and love, keep us faithful to the apostles' teaching and fellowship, united in prayer and the breaking of bread, and one in joy and simplicity of heart, in Jesus Christ our Lord. AMEN



Dydd Sul 6^{ed} Medi 2026
+14^{eg} Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

Hollalluog Dduw, yr agorodd dy unig Fab inni ffordd newydd a bywiol i'th bresenoldeb, dyro inni galonnau pur ac ewyllys gadarn i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Eseciel

(33.7-11)

"Fab dyn, gosodais di yn wylwr i dŷ Israel; byddi'n clywed gair o'm genau ac yn rhoi rhybudd iddynt oddi wrthyf. Os dywedaf fi wrth y drygionus, 'O ddrygionus, byddi'n sicr o farw', a thithau'n peidio â llefaru i'w rybuddio i droi o'i ffordd, yna, er i'r drygionus farw am ei ddrygioni, byddaf yn dy ddal di'n gyfrifol am ei waed. Ond os byddi'n rhybuddio'r drygionus i droi o'i ffordd, ac yntau'n gwrthod, fe fydd farw am ei ddrygioni, ond fe fyddi di'n arbed dy fywyd.

"Fab dyn, dywed wrth dŷ Israel, 'Dyma a ddywedwch: "Y mae ein troseddau a'n pechodau yn fwrn arnom, ac yr ydym yn darfod o'u plegid; sut y byddwn fyw?"' Dywed wrthynt, 'Cyn wired â'm bod yn fyw, medd yr Arglwydd DDUW, nid wyf yn ymfrydu ym marwolaeth y

drygionus, ond yn hytrach ei fod yn troi o'i ffordd ac yn byw. Trowch, trowch o'ch ffyrdd drwg! Pam y byddwch farw, O dŷ Israel?"

Y Salm

(119.33-40)

O ARGLWYDD, dysg fi yn ffordd dy ddeddfau, ac o'i chadw fe gaf wobwr. Rho imi ddeall, er mwyn imi ufuddhau i'th gyfraith a'i chadw â'm holl galon;

gwna imi gerdded yn llwybr dy orchmynion, oherwydd yr wyf yn ymfrydu ynddo. Tro fy nghalon at dy farnedigaethau yn hytrach nag at elw;

tro ymaith fy llygaid rhag gweld gwagedd; adfywia fi â'th air. Cyflawna i'th was yr addewid a roddaist i'r rhai sy'n dy ofni.

Tro ymaith y gwaradwydd yr wyf yn ei ofni, oherwydd y mae dy farnau'n dda. Yr wyf yn dyheu am dy ofynion; adfywia fi â'th gyfiawnder.

Darlleniad o Rufeiniaid

(13.8-14)

Peidiwch â bod mewn dyled i neb, ar wahân i'r ddyled o garu eich gilydd. Y mae'r sawl sy'n caru pobl eraill wedi cyflawni holl ofynion y Gyfraith. Oherwydd y mae'r gorchmynion, "Na odineba, na ladd, na ladrata, na chwennych", a phob gorchmyn arall, wedi eu crynhoi yn y gorchmyn hwn: "Câr dy gymydog fel ti dy hun." Ni all cariad wneud cam â chymydog. Y mae cariad, felly,

yn gyflawniad o holl ofynion y Gyfraith.

Ie, gwnewch hyn oll fel rhai sy'n ymwybodol o'r amser, mai dyma'r awr ichwi i ddeffro o gwsg. Erbyn hyn, y mae ein hiachawdwriaeth yn nes atom nag oedd pan ddaethom i gredu. Y mae'r nos ar ddod i ben, a'r dydd ar wawrio.

Gadewch inni, felly, roi heibio weithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau'r goleuni. Gadewch inni fyw yn weddus, fel yng ngolau dydd, heb roi dim lle i loddest a meddwdod, i anniweirdeb ac anlladrwydd, i gynnen ac eiddigedd. Gwisgwch yr Arglwydd Iesu Grist amdanoch; a pheidiwch â rhoi eich bryd ar foddhau chwantau'r cnawd.

Darlleniad Efengyl oî Sant Mathew

(18.15-20)

"Os pecha dy gyfaill yn dy erbyn, dos a dangos ei fai iddo, o'r neilltu rhyngot ti ac ef. Os bydd yn gwrando arnat, fe enllaist dy gyfaill. Ond os na fydd yn gwrando, cymer gyda thi un neu ddau arall, er mwyn i bob peth sefyll ar air dau neu dri o dystion. Os bydd yn gwrthod gwrando arnynt hwy, dywed wrth yr eglwys; ac os bydd yn gwrthod gwrando ar yr eglwys, cyfrifa ef fel un o'r Cenhedloedd a'r casglwr trethi.

"Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyf, pa bethau bynnag a waharddwch ar y ddaear, fe'u gwaherddir yn y nef, a pha bethau bynnag a ganiatewch ar y

ddaear, fe'u caniateir yn y nef. A thrachefn 'rwy'n dweud wrthyf, os bydd dau ohonoch yn cytuno ar y ddaear i ofyn am unrhyw beth, fe'i rhoddir iddynt gan fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Oherwydd lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Arglwydd Dduw, ffynhonnell gwirionedd a chariad, cadw ni'n ffyddlon i ddysgeidiaeth a chymdeithas yr apostolion, wedi ein huno mewn gweddi a thorri bara, ac yn un mewn llawenydd a symrlwydd calon, yn Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint.
Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ol-Gymun o'r
llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng
Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmâu trwy ganiatâd o'r Beibl
Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004
Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.